Agweddau gweithwyr gofal iechyd yng Nghymru tuag at ddefnyddio'r Gymraeg mewn lleoliadau gofal iechyd

Lauren Blake, Angharad Wyn, Alwena Morgan, Llinos Roberts, Elin Vigus, William Rawlings a Ffion Williams

Cyfeirnod:
Blake, L., et al. (2026), 'Agweddau gweithwyr gofal iechyd yng Nghymru tuag at ddefnyddio'r Gymraeg mewn lleoliadau gofal iechyd', *Gwerddon*, 42. <https://doi.org/10.61257/GWER4203>

Cyhoeddwyd: Hydref 2026

Arfarnu:
Mae'r erthygl hon wedi cael ei harfarnu gan gymheiriaid drwy broses ddwbl-ddall *Gwerddon*, cyfnodolyn a gyhoeddir gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

Hawlfraint:
© 2026 Yr Awdur(on). Mae hon yn erthygl mynediad agored a ddosberthir o dan delerau'r Drwydded Ryngwladol Creative Commons Attribution 4.0 (CC BY 4.0), sy'n caniatáu defnydd, dosbarthiad ac atgynhyrchu heb gyfyngiad mewn unrhyw gyfrwng, ar yr amod bod yr awdur a'r ffynhonnell wreiddiol yn cael eu cydnabod. Gweler http://creativecommons.org/licenses/by/4.0/.

Mynediad agored:
Mae hon yn erthygl mynediad agored sydd wedi'i hadolygu gan gymheiriaid.

Agweddau gweithwyr gofal iechyd yng Nghymru tuag at ddefnyddio'r Gymraeg mewn lleoliadau gofal iechyd

Lauren Blake, Angharad Wyn, Alwena Morgan, Llinos Roberts, Elin Vigus, William Rawlings a Ffion Williams

Crynodeb: Mae'r astudiaeth hon yn archwilio agweddau gweithwyr gofal iechyd yng Nghymru tuag at ddefnyddio'r Gymraeg mewn lleoliadau clinigol. Cynhaliwyd arolwg di-enw ar-lein er mwyn asesu hyfedredd yn y Gymraeg, profiadau o ddefnyddio'r iaith gyda chleifion a chyd-weithwyr, a barn am rôl y Gymraeg mewn gofal iechyd. Canfuwyd cysylltiad cryf rhwng defnyddio'r Gymraeg a hyder wrth gyfathrebu. Yn gyffredinol, roedd yr agweddau'n gadarnhaol, gyda llawer yn cefnogi gofynion hyfedredd sylfaenol, cynyddu nifer y gweithwyr gofal iechyd Cymraeg eu hiaith er mwyn gwella gofal cleifion, a dyrannu lleoedd i siaradwyr Cymraeg ar gyrsiau gofal iechyd. Awgrymir y gall hyrwyddo'r Gymraeg mewn gofal iechyd wella ansawdd gofal ar gyfer poblogaeth ddwyieithog Cymru.

Allweddeiriau: iaith leiafrifol, cyfathrebu, y Gymraeg, gofal cleifion.

Attitudes of healthcare professionals in Wales towards the use of the Welsh language in healthcare settings

Summary: This study explores healthcare professionals' attitudes in Wales toward using Welsh in clinical settings. An anonymous online survey examined Welsh language proficiency, experiences of using the language with patients and colleagues, and opinions on its role in healthcare. Findings reveal a strong link between Welsh language use and confidence in communication. Overall, attitudes were positive, with many supporting minimum Welsh proficiency requirements for staff, increasing the numbers of Welsh-speaking professionals to enhance patient care, and reserved places for Welsh speakers on healthcare courses. These views suggest that promoting Welsh language use in healthcare could improve care quality for Wales' bilingual population.

Key words: minority language, communication, the Welsh language, patient care.

Cefndir

Mae astudiaethau wedi dangos y gall rhwystrau iaith effeithio'n negyddol ar ansawdd y gofal a gaiff cleifion, gan amlygu pwysigrwydd cydnabod a defnyddio'r Gymraeg mewn lleoliadau gofal iechyd yng Nghymru (Irvine 2006). Mae rhwystrau iaith rhwng cleifion a staff gofal iechyd yn arwain at gyfathrebu gwael, gostyngiad mewn ansawdd gofal a chanlyniadau iechyd gwael (Bischoff 2010; Prys et al., 2021). Mae hyn yn arbennig o berthnasol i bobl hŷn, a all brofi ailgyfeirio iaith oherwydd dementia, ac i blant ifanc nad ydynt wedi dysgu Saesneg fel ail iaith eto (Tipping a Whiteside 2015). Mae'r rhan fwyaf o siaradwyr Cymraeg rhugl hefyd yn rhugl yn y Saesneg ac felly caiff y rhwystrau iaith y maent yn eu hwynebu eu hanwybyddu'n aml, yn enwedig mewn gofal iechyd (Irvine 2006).

Cyfeirir at y Gymraeg yn aml fel iaith leiafrifol gan fod llai na 18% o'r boblogaeth yn gallu siarad Cymraeg (Swyddfa Ystadegau Gwladol 2021). Mae Llywodraeth Cymru yn gwneud ymdrech sylweddol i adfywio'r Gymraeg ar draws pob sector yng Nghymru, gan gynnwys gofal iechyd (Prys et al., 2021). Er mai dim ond 17.8% o boblogaeth Cymru sy'n siarad Cymraeg yn rhugl, mae gwahaniaethau rhanbarthol wedi dangos bod cyfran uchel o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg mewn ardaloedd mwy gwledig (64.4% o'r sir yn siarad Cymraeg yng Ngwynedd a 55.8% ar Ynys Môn) (Swyddfa Ystadegau Gwladol 2021). Mae hyn yn amlygu'r angen am weithwyr gofal iechyd Cymraeg eu hiaith yng Nghymru, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig.

Nid yw'r mater hwn yn unigryw i Gymru ac mae gwledydd eraill ledled y byd yn adrodd am broblem rhwystrau iaith mewn gofal iechyd. Mae tebygrwydd amlwg rhwng sut yr ymdrinnir â'r Gymraeg a'r Fasgeg, yn enwedig o ran eu statws fel ieithoedd brodorol lleiafrifol sydd wedi profi ymdrechion sylweddol i'w hadfywio. Mae'r ddwy iaith wedi profi cyfnodau o ormes a dirywiad yn hanesyddol, ac ymyrraeth polisi helaeth gyda'r nod o hyrwyddo eu defnydd mewn bywyd cyhoeddus, gan gynnwys addysg, gofal iechyd a gweinyddiaeth gyhoeddus (Lewis 2021; Gorter et al., 2014). Canfu astudiaeth gan Elizegi Narbarte et al. (2025), a gynhaliwyd yn rhanbarth Gwlad y Basg, y gall ymyleiddio'r iaith Fasgeg ym maes gofal iechyd arwain at anwybyddu anghenion ieithyddol a diwylliannol cleifion, gyda menywod a chleifion trawsryweddol yn arbennig yn adrodd am fregusrwydd cynyddol pan nad ydynt yn gallu defnyddio eu hiaith ddewisol, sy'n effeithio'n negyddol ar eu hymdeimlad o ddiogelwch, eu hunaniaeth a'u hymddiriedaeth mewn rhyngweithiadau gofal iechyd.

Yn UDA, mae poblogaeth siaradwyr Sbaeneg nad ydynt yn gallu siarad llawer o Saesneg yn tyfu'n barhaus, gan greu her sylweddol i weithwyr gofal iechyd sy'n ei chael yn anodd cyfathrebu'n llwyddiannus â'r cleifion hyn (Ortega 2018). Gelwir yr unigolion hyn yn rhai sydd â gallu cyfyngedig yn y Saesneg, ac mae ymchwil wedi dangos yn gyson bod cleifion â gallu o'r fath yn yr Unol Daleithiau yn wynebu rhwystrau ychwanegol wrth gael mynediad at wasanaethau iechyd ac yn profi canlyniadau iechyd gwaeth o gymharu â chleifion sy'n rhugl yn Saesneg (Twersky et al. 2024). Yn yr un modd, mae Ontario, Canada, yn gartref i boblogaeth fawr o siaradwyr Ffrangeg (dros hanner miliwn), ond mae'r rhanbarth yn

brin o weithwyr gofal iechyd sy'n siarad Ffrangeg (Droun et al. 2006). Er bod y dalaith yn hyrwyddo egwyddor cynnig gweithredol o wasanaethau iaith Ffrangeg, mae cleifion yn dal i adrodd am anawsterau wrth gael mynediad at wasanaethau gofal iechyd yn Ffrangeg (Savard 2020).

Dangosodd ymchwil flaenorol yn gyson bwysigrwydd darparu gwasanaethau gofal iechyd drwy gyfrwng y Gymraeg a thynnodd sylw at effaith gadarnhaol gofal drwy gyfrwng yr iaith fwyaf addas ar brofiad, cyfathrebu a lles cleifion (Irvine 2006; Bischoff 2010; Prys et al., 2021). Fodd bynnag, cymharol ychydig o sylw a roddwyd i brofiadau'r gweithwyr gofal iechyd proffesiynol sy'n gyfrifol am ddarparu'r gwasanaethau hyn. Mae llawer o'r llenyddiaeth wedi canolbwyntio ar ddewisiadau, hawliau a phrofiadau cleifion o dderbyn gofal yn y Gymraeg, tra bod llai o sylw wedi'i roi i'r ffactorau sy'n dylanwadu ar ddefnydd gweithwyr iechyd proffesiynol o'r Gymraeg yn ymarferol. O ganlyniad, ceir dealltwriaeth gyfyngedig o ba mor hyderus yw aelodau staff wrth ddefnyddio'r Gymraeg mewn lleoliadau gofal iechyd ac i ba raddau y mae'r hyder hwnnw'n dylanwadu ar ddefnydd o'r Gymraeg mewn ymarfer clinigol bob dydd.

Mae'r bwlch hwn hefyd yn amlwg wrth ystyried y llenyddiaeth ryngwladol ehangach ar ddarpariaeth gofal iechyd mewn ieithoedd lleiafrifol. Mae ymchwil mewn cyd-destunau gofal iechyd dwyieithog ac amlieithog wedi cydnabod yn gynyddol fod darparu gofal sy'n gydnaws â chefndir ieithyddol cleifion yn dibynnu ar fwy na gallu ieithyddol yn unig. Gall ffactorau megis diwylliant y gweithle, cefnogaeth sefydliadol, cyfleoedd i ddefnyddio'r iaith leiafrifol yn ogystal â hyder yn broffesiynol oll ddylanwadu ar ba mor debygol yw gweithwyr gofal iechyd dwyieithog o ddefnyddio eu sgiliau iaith mewn cyd-destunau clinigol (Roberts 2004; Gofal Cymdeithasol Cymru 2025; Ogbuefi et al., 2025; Garcia et al., 2023).

Mae'r astudiaeth hon yn cyfrannu at y drafodaeth ddatblygol hon drwy archwilio defnydd gweithwyr gofal iechyd proffesiynol o'r Gymraeg a'u hyder wrth ddefnyddio'r iaith mewn lleoliadau clinigol. Drwy ganolbwyntio ar ddarparwyr gwasanaethau yn hytrach na derbynwyr gwasanaethau, mae'r astudiaeth yn cynnig dealltwriaeth newydd o'r ffactorau a all hwyluso neu rwystro darpariaeth gofal iechyd Cymraeg ac yn mynd i'r afael â phwnc nad yw wedi derbyn llawer o sylw mewn cyhoeddiadau yn y maes hyd yma.

Methodoleg

Pwrpas yr astudiaeth hon oedd gwerthuso agweddau gweithwyr gofal iechyd yng Nghymru tuag at ddefnyddio'r Gymraeg mewn lleoliadau gofal iechyd. Dewiswyd holiadur fel y prif ddull o gasglu data oherwydd ei fod yn galluogi casglu data safonedig yn effeithlon gan sampl fawr, gan hwyluso dadansoddiad ystadegol a chymhariaeth rhwng ymatebwyr (Creswell 2018; Bryman 2016). Rhoddwyd cymeradwyaeth foesegol i'r prosiect gan Bwyllgor Moeseg Ymchwil Ysgol Feddygaeth Prifysgol Abertawe (SUMS RESC 2022-0063). Crëwyd yr holiadur gan ddefnyddio Microsoft Forms (Atodiad 1), a dosbarthwyd posteri dwyieithog (Cymraeg a Saesneg) yn hysbysebu'r astudiaeth, ynghyd â dolen i'r holiadur, ar lwyfannau cyfryngau cymdeithasol, gan gynnwys Facebook ac Instagram, a thrwy e-bost

at gysylltiadau adnabyddus. Tynnwyd enw cyfranogwyr oddi ar yr holiaduron ar ôl eu cyflwyno, a rhoddwyd gwybod iddynt y byddai caniatâd i gymryd rhan yn yr ymchwil yn cael ei dybio drwy gwblhau'r holiadur. Roedd meini prawf cynnwys yr holiadur yn cynnwys gweithwyr gofal iechyd dros 18 oed sy'n gweithio i fyrddau iechyd y GIG yng Nghymru. Roedd y meini prawf eithrio yn cynnwys gweithwyr gofal iechyd nad ydynt yn gweithio yng Nghymru.

Roedd yr arolwg dwyieithog yn cynnwys tair adran: manylion demograffig a chyflogaeth y cyfranogwyr yn adran un, hyfedredd yn y Gymraeg a phrofiad o'i defnyddio gyda chydweithwyr a chleifion yn adran dau, a'u barn am ddefnyddio'r Gymraeg mewn lleoliadau gofal iechyd/clinigol yn adran tri. Diffinnir 'lleoliadau gofal iechyd/clinigol' yn yr astudiaeth hon fel unrhyw amgylchedd lle y darperir gofal uniongyrchol i gleifion, gan gynnwys ysbytai, sefydliadau gofal sylfaenol a lleoliadau cymunedol.

Mewnbynnwyd data meintiol o'r holiadur i MS Excel ar gyfer eu dadansoddi. Cynhaliwyd dadansoddiad ystadegol ar ffurf Prawf chi-sgwâr gan ddefnyddio meddalwedd SPSS. Defnyddiwyd Prawf chi-sgwâr er mwyn archwilio'r cysylltiad rhwng newidynnau categorïaidd, gan ei fod yn briodol ar gyfer profi perthnasoedd rhwng data enwol neu drefnol ac ar gyfer nodi a yw'r gwahaniaethau a arsylwyd yn ystadegol arwyddocaol (Field 2018; Pallant 2020).

Canlyniadau

Nodweddion y sampl

O'r 147 o gyfranogwyr a gymerodd ran yn yr astudiaeth hon, roedd 43% (64/147) yn gweithio i Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, 18% (27/147) i fwrdd Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, 12% (17/147) i Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe ac 11% (16/147) i Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg. Roedd y cyfranogwyr sy'n weddill yn gweithio i Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Bwrdd Iechyd Addysgu Powys gyda 2% (3/147), 9% (13/147) a 5% (7/147) yn gweithio i'r byrddau iechyd hyn yn ôl eu trefn.

Wrth rannu yn ôl rôl gofal iechyd, roedd 24% (36/147) o'r cyfranogwyr yn feddygon, 11% (16/147) yn nyrsys, 10% (15/147) yn weithwyr cymorth gofal iechyd, 6% (9/147) yn ofalwyr, 6% (9/147) yn fydwragedd, 5% (7/147) yn fferyllwyr a 3% (4/147) yn therapyddion galwedigaethol. Roedd y 35% (51/147) sy'n weddill yn cynnwys gweithwyr proffesiynol gofal iechyd eraill.


Hyfedredd yn y Gymraeg

Adroddodd 62% (92/147) o'r cyfranogwyr yn yr astudiaeth hon mai Saesneg oedd eu hiaith gyntaf, nododd 33% (48/147) y Gymraeg fel eu hiaith gyntaf a nododd 5% (7/147) 'eraill' fel eu hiaith gyntaf. Er mai dim ond 33% o'r cyfranogwyr a nododd y Gymraeg fel eu hiaith gyntaf, adroddodd 44% (64/147) eu bod wedi derbyn addysg cyfrwng Cymraeg. Yn dilyn hyn, dosbarthwyd siaradwyr Cymraeg rhugl fel y rhai a dderbyniodd addysg cyfrwng

Cymraeg.

Defnydd o'r Gymraeg mewn gofal iechyd

Pan ofynnwyd am eu defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle, adroddodd 30% (44/147) o'r cyfranogwyr eu bod yn defnyddio'r iaith bob dydd, 37% (55/147) eu bod yn ei defnyddio weithiau a 33% (48/147) eu bod byth yn defnyddio'r Gymraeg mewn lleoliad clinigol (ffigur 1A). O'r rhai a adroddodd eu bod yn defnyddio'r iaith bob dydd, roedd 86% (38/44) yn siaradwyr Cymraeg rhugl, tra bod y 14% (6/44) sy'n weddill yn siaradwyr nad ydynt yn rhugl (ffigur 1A). O gymharu, roedd 11% (5/48) o'r cyfranogwyr a adroddodd nad oeddent byth yn defnyddio'r Gymraeg mewn lleoliad clinigol yn siaradwyr Cymraeg rhugl, tra bod y 89% (43/48) sy'n weddill yn siaradwyr nad ydynt yn rhugl (ffigur 1A).



Ffigur 1: Hyder a defnydd o'r Gymraeg mewn lleoliad clinigol. Defnydd a adroddwyd o'r Gymraeg mewn lleoliad clinigol a rhuglder yn y Gymraeg (A). Hyder wrth ddefnyddio'r Gymraeg gyda chleifion a defnydd o'r Gymraeg mewn lleoliad clinigol (B). Hyder wrth ddefnyddio'r Gymraeg gyda chydweithwyr a defnydd o'r Gymraeg mewn lleoliad clinigol (C). Profwyd arwyddocâd gan ddefnyddio Prawf chi-sgwâr o annibyniaeth $p < 0.001$.

O'r cyfranogwyr a adroddodd eu bod yn defnyddio'r Gymraeg weithiau mewn lleoliad clinigol, roedd 38% (21/55) yn siaradwyr Cymraeg rhugl a 62% (34/55) yn siaradwyr nad ydynt yn rhugl (ffigur 1A). Dangosodd Prawf chi-sgwâr o annibyniaeth gysylltiad arwyddocaol rhwng amlder defnydd o'r Gymraeg mewn lleoliad clinigol a rhuglder yn y

Gymraeg ($p < 0.001$) (ffigur 1A). O'r cyfranogwyr a gymerodd ran yn yr astudiaeth hon, adroddodd 57% (84/147) eu bod yn teimlo'n ansicr iawn wrth ddefnyddio'r Gymraeg gyda chleifion, adroddodd 11% (16/147) eu bod yn teimlo'n weddol hyderus ac adroddodd 32% (47/147) eu bod yn teimlo'n hyderus iawn (ffigur 1B). O'r rhai a adroddodd eu bod yn hyderus iawn wrth ddefnyddio'r Gymraeg gyda chleifion, roedd 74% (35/47) yn defnyddio'r Gymraeg bob dydd a'r 26% (12/47) sy'n weddill yn ei defnyddio weithiau (ffigur 1B). Ymhlith y cyfranogwyr a adroddodd eu bod yn weddol hyderus wrth ddefnyddio'r Gymraeg gyda chleifion, roedd 44% (7/16) yn ei siarad bob dydd a 56% (9/16) yn ei siarad weithiau mewn lleoliad clinigol (ffigur 1C). O gymharu, o'r rhai a adroddodd eu bod yn ansicr iawn wrth ddefnyddio'r Gymraeg gyda chleifion, adroddodd 57% (48/84) nad oeddent byth yn defnyddio'r Gymraeg mewn lleoliad clinigol, adroddodd 41% (34/84) eu bod yn ei defnyddio weithiau ac adroddodd 2% (2/84) eu bod yn ei siarad bob dydd (ffigur 1B). Dangosodd Prawf chi-sgwâr o annibyniaeth gysylltiad arwyddocaol rhwng hyder wrth siarad Cymraeg â chleifion ac amlder defnydd o'r Gymraeg mewn lleoliad clinigol ($p < 0.001$) (ffigur 1B).

Pan ofynnwyd am eu hyder wrth ddefnyddio'r Gymraeg gyda chyd-weithwyr, adroddodd 33% (49/147) eu bod yn teimlo'n hyderus iawn, 12% (18/147) eu bod yn weddol hyderus a 55% (80/147) eu bod yn ansicr iawn (ffigur 1C). O'r rhai a adroddodd eu bod yn hyderus iawn, roedd 73% (36/49) yn siarad yr iaith bob dydd mewn lleoliad clinigol a'r 27% (13/49) sy'n weddill yn siarad Cymraeg weithiau (ffigur 1C). O'r rhai a oedd yn teimlo'n weddol hyderus wrth siarad Cymraeg â chyd-weithwyr, adroddodd 39% (7/18) eu bod yn defnyddio'r iaith bob dydd a 61% (11/18) eu bod yn ei defnyddio weithiau (ffigur 1C). O gymharu, o'r cyfranogwyr a adroddodd eu bod yn ansicr iawn wrth ddefnyddio'r Gymraeg gyda chyd-weithwyr, roedd 60% (48/80) byth yn siarad Cymraeg mewn lleoliad clinigol, roedd 39% (31/80) yn ei siarad weithiau ac roedd 1% (1/80) yn siarad yr iaith bob dydd (ffigur 1C). Dangosodd Prawf chi-sgwâr o annibyniaeth gysylltiad arwyddocaol rhwng hyder wrth siarad Cymraeg â chyd-weithwyr ac amlder defnydd o'r Gymraeg mewn lleoliad clinigol ($p < 0.001$) (ffigur 1C). Nodwyd hefyd gysylltiad arwyddocaol rhwng hyder wrth siarad Cymraeg â chyd-weithwyr a hyder wrth siarad Cymraeg â chleifion drwy Brawf chi-sgwâr o annibyniaeth ($p < 0.001$).

Cyfleoedd i ddysgu Cymraeg mewn gofal iechyd


O'r cyfranogwyr nad oeddent yn siaradwyr Cymraeg rhugl, dywedodd 58% (48/83) eu bod wedi cael y cyfle i ddysgu Cymraeg drwy eu gweithle, dywedodd 33% (27/83) nad oeddent wedi cael y cyfle, ac adroddodd 9% (8/83) nad oedd hyn yn berthnasol iddynt. I'r rhai a gafodd y cyfle i ddysgu Cymraeg drwy eu gweithle, roedd hyn yn bennaf drwy fynychu dosbarthiadau ar-lein. Atebodd 46% (38/83) o'r siaradwyr nad ydynt yn rhugl 'oes' i fod â diddordeb mewn dysgu Cymraeg drwy eu gweithle, adroddodd 29% (24/83) 'efallai' ac adroddodd 25% (21/83) nad oedd ganddynt unrhyw ddiddordeb o gwbl mewn dysgu Cymraeg. I'r rhai nad oedd ganddynt ddiddordeb, diffyg amser oedd y rheswm a adroddwyd amlaf, yn ogystal â diffyg hyder a diffyg diddordeb.

Mynediad at ddarpariaeth Gymraeg wrth gymhwyso

Er bod 95% o'r cyfranogwyr sy'n siarad Cymraeg yn rhugl wedi cymhwyso yng Nghymru, adroddodd pump ohonynt eu bod wedi cael mynediad at ddarpariaeth Gymraeg helaeth wrth gymhwyso, cafodd 26 fynediad at rywfaint o ddarpariaeth, a chafodd 30 ddim mynediad o gwbl. Nid oedd unrhyw berthynas arwyddocaol rhwng mynediad at ddarpariaeth Gymraeg a rôl gofal iechyd ($p = 0.494$). Nid oedd unrhyw gysylltiad rhwng y ddarpariaeth Gymraeg ac oedran y cyfranogwyr ($p = 0.168$).

Hyfedredd staff gofal iechyd yng Nghymru yn y Gymraeg

Gofynnwyd i'r cyfranogwyr am eu barn ynghylch a ddylai fod gofyniad am hyfedredd sylfaenol yn y Gymraeg ar gyfer staff gofal iechyd yng Nghymru. Cytunodd 68% (100/147) y dylai fod gofyniad, cytunodd 25% (37/147) i ryw raddau a theimlai 7% (10/147) na ddylid disgwyl hyn (ffigur 2A). O'r rhai a gytunodd â gofyniad am hyfedredd sylfaenol yn y Gymraeg ar gyfer staff gofal iechyd yng Nghymru, roedd 53% (53/100) yn siaradwyr Cymraeg rhugl a 47% (47/100) yn siaradwyr nad ydynt yn rhugl (ffigur 2A). O gymharu, o'r rhai a gytunodd i ryw raddau, roedd 78% (29/37) yn siaradwyr nad ydynt yn rhugl a 22% (8/37) yn siaradwyr rhugl (ffigur 2A). Yn yr un modd, o'r rhai na chytunodd â gofyniad am hyfedredd sylfaenol yn y Gymraeg, roedd 70% (7/10) yn siaradwyr nad ydynt yn rhugl a 30% (3/10) yn siaradwyr rhugl (ffigur 2A). Dangosodd Prawf chi-sgwâr berthynas arwyddocaol rhwng barn a gallu yn yr iaith ($p < 0.001$). Mae hyn yn awgrymu bod y rhai sy'n siarad Cymraeg yn fwy tebygol o gytuno â gofyniad hyfedredd sylfaenol yn y Gymraeg.



Ffigur 2. Hyfedredd staff gofal iechyd yng Nghymru yn y Gymraeg. (A) Barn y cyfranogwyr (rhugl neu heb fod yn rhugl) ynghylch a ddylai gweithwyr gofal iechyd yng Nghymru fod â lefel sylfaenol o hyfedredd yn y Gymraeg. (B) Barn y cyfranogwyr (rhugl neu heb fod yn rhugl) ynghylch a fyddai cael mwy o siaradwyr Cymraeg yn gweithio mewn lleoliadau gofal iechyd yng Nghymru yn gwella gofal cleifion. (C) Barn y cyfranogwyr (rhugl neu heb fod yn rhugl) ynghylch a fyddai rhwymedigaeth i ddysgu Cymraeg yn effeithio ar nifer yr ymgeiswyr ar gyfer swyddi gofal iechyd yng Nghymru. (Ch) Barn y cyfranogwyr (rhugl neu heb fod yn rhugl) ynghylch a ddylai cyrsiau gofal iechyd gynnig nifer penodol o leoedd i siaradwyr Cymraeg rhugl. Profwyd perthynas statudol arwyddocaol gan ddefnyddio Prawf chi-sgwâr o annibyniaeth **p $<$ 0.001, *p $<$ 0.05.

Pan ofynnwyd a fyddai cael mwy o siaradwyr Cymraeg yn gweithio mewn lleoliadau gofal iechyd yng Nghymru yn gwella gofal cleifion, cytunodd 82% (120/147) y byddai, o gymharu â 18% (27/147) a deimlai na fyddai (ffigur 2B). O'r rhai a gytunodd, roedd 47% (56/120) yn siaradwyr Cymraeg rhugl a 53% (64/120) yn siaradwyr nad ydynt yn rhugl (ffigur 2B). O'r rhai na chytunodd, roedd 72% (21/27) yn siaradwyr nad ydynt yn rhugl a 28% (6/27) yn siaradwyr rhugl (ffigur 2B). Cynhaliwyd Prawf chi-sgwâr o annibyniaeth er mwyn archwilio'r berthynas rhwng gallu yn y Gymraeg a barn. Canfuwyd bod y berthynas

yn ystadegol arwyddocaol (p = 0.020). Awgrymodd Prawf chi-sgwâr o annibyniaeth fod siaradwyr Cymraeg yn fwy tebygol o gytuno y byddai cael rhagor o siaradwyr Cymraeg mewn gofal iechyd yng Nghymru yn gwella gofal.

Gofynnwyd i'r cyfranogwyr hefyd a fyddai rhwymedigaeth i ddysgu Cymraeg yn effeithio ar nifer yr ymgeiswyr ar gyfer swyddi gofal iechyd yng Nghymru. Cytunodd 73% (107/147) y byddai, tra bod 27% (40/147) yn teimlo na fyddai (ffigur 2C). O'r cyfranogwyr a gytunodd y byddai'n gwneud gwahaniaeth, roedd 62% (66/107) yn siaradwyr nad ydynt yn rhugl a 38% (41/107) yn siaradwyr rhugl (ffigur 2C). O'r cyfranogwyr nad oeddent yn teimlo y byddai hyn yn gwneud gwahaniaeth, roedd 57% yn siaradwyr rhugl a 43% yn siaradwyr nad ydynt yn rhugl (ffigur 2C). Cynhaliwyd Prawf chi-sgwâr o annibyniaeth er mwyn archwilio'r berthynas rhwng gallu yn y Gymraeg a barn. Canfuwyd bod y berthynas yn ystadegol arwyddocaol (p = 0.037), gyda siaradwyr Cymraeg rhugl yn teimlo na fyddai'r angen i ddysgu Cymraeg yn effeithio ar ymgeiswyr ar gyfer swyddi gofal iechyd yng Nghymru.

Pan ofynnwyd a oedd y cyfranogwyr yn cytuno â chyrsiau gofal iechyd yn cadw nifer penodol o leoedd ar gyfer siaradwyr Cymraeg rhugl, cytunodd 61% (90/147) tra bod 39% (57/147) yn anghytuno (ffigur 2Ch). O'r rhai a gytunodd, roedd 53% (48/90) yn siaradwyr Cymraeg rhugl tra bod 47% (42/90) yn siaradwyr nad ydynt yn rhugl (ffigur 2Ch). O'r rhai nad oeddent yn cytuno, roedd 28% (16/57) yn siaradwyr rhugl tra bod 72% (41/57) yn siaradwyr nad ydynt yn rhugl (ffigur 2Ch). Cynhaliwyd Prawf chi-sgwâr o annibyniaeth i archwilio'r berthynas rhwng gallu yn y Gymraeg a barn. Canfuwyd bod y berthynas yn ystadegol arwyddocaol (p < 0.001). Unwaith eto, mae hyn yn awgrymu bod y farn yn amrywio'n sylweddol yn seiliedig ar ruglder y cyfranogwyr yn y Gymraeg, gyda chyfranogwyr sy'n siarad Cymraeg yn rhugl yn teimlo'n gryfach dros sefydliadau yn cadw nifer penodol o leoedd i fyfyrwyr sy'n siarad Cymraeg ar gyrsiau gofal iechyd.

Trafodaeth

Mae strategaeth Llywodraeth Cymru 'Cymraeg 2050' yn anelu at gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghymru i un filiwn erbyn 2050 (Llywodraeth Cymru 2022). Gyda'r cynnydd yn nifer y siaradwyr Cymraeg, mae angen cynyddol am wasanaethau dwyieithog ledled y wlad. Mae'n hysbys bod rhwystrau iaith yn effeithio ar ganlyniadau a bodlonrwydd cleifion, ac felly mae'r angen am staff dwyieithog yn arbennig o berthnasol mewn gofal iechyd (Irvine 2006; Bischoff 2010; Prys et al., 2021). Er bod ymchwil flaenorol wedi canolbwyntio'n bennaf ar ddarpariaeth gofal iechyd cyfrwng Cymraeg o safbwynt cleifion a defnyddwyr gwasanaethau, rhoddwyd llai o sylw i brofiadau ac arferion gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eu hunain. Mae'r erthygl hon yn cyfrannu at y maes drwy archwilio hyder staff gofal iechyd wrth ddefnyddio'r Gymraeg mewn lleoliadau clinigol a faint o'r Gymraeg a ddefnyddir mewn ymarfer clinigol o ddydd i ddydd. Drwy ganolbwyntio ar safbwynt y darparwr gwasanaeth, mae'r astudiaeth yn cynnig dealltwriaeth newydd o'r ffactorau sy'n hwyluso neu'n rhwystro darpariaeth gwasanaethau gofal iechyd cyfrwng Cymraeg.

Mae canfyddiadau'r astudiaeth hon yn awgrymu bod y berthynas rhwng gallu yn y

Gymraeg a defnydd o'r Gymraeg yn ymarferol mewn gofal iechyd yn fwy cymhleth na'r hyn a feddylir. Er bod nifer o'r cyfranogwyr yn medru siarad Cymraeg, nid oedd hyn o reidrwydd yn arwain at ddefnydd rheolaidd o'r Gymraeg mewn rhyngweithiadau clinigol. Yn hytrach, daeth hyder i'r amlwg fel ffactor pwysig a oedd yn dylanwadu ar ymddygiad ieithyddol a pharodrwydd i gyfathrebu â chleifion drwy gyfrwng y Gymraeg. Canfu canlyniadau'r astudiaeth hon berthynas arwyddocaol rhwng defnydd dyddiol o'r Gymraeg a hyder wrth siarad Cymraeg â chleifion a chyd-weithwyr. Mae'r canfyddiadau hyn yn ategu gwaith blaenorol sydd wedi awgrymu bod defnydd o iaith mewn lleoliadau gofal iechyd yn cael ei ddylanwadu gan ystod o ffactorau unigol a sefydliadol yn hytrach na gallu ieithyddol yn unig (Roberts 2004; Gofal Cymdeithasol Cymru 2025; Ogbuefi et al., 2025; Garcia et al., 2023). Mae'r canfyddiad hwn yn gyson â chanfyddiadau gwaith Roberts et al. (2007), lle y dangoswyd cysylltiad cadarnhaol rhwng defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle a hyfedredd yn y Gymraeg ymhlith nyrsys, bydwragedd ac ymwelwyr iechyd. Daeth Roberts (2004) i'r casgliad fod dewis iaith mewn gofal iechyd yn cael ei siapio gan ffactorau personol a ffactorau yn ymwneud â'r gweithle, gan bwysleisio cymhlethdod y defnydd o iaith mewn amgylcheddau gofal iechyd. Mae'r astudiaeth bresennol yn ymestyn y gwaith hwn drwy nodi hyder fel mecanwaith posibl sy'n dylanwadu ar y graddau y mae sgiliau ieithyddol Cymraeg yn cael eu trosi'n ddefnydd gweithredol o'r iaith mewn ymarfer clinigol. Mae'r canfyddiadau hyn hefyd yn ategu gwaith Garcia et al. (2023), a ddangosodd fod y defnydd o ieithoedd heblaw Saesneg gan weithwyr gofal iechyd proffesiynol dwyieithog yn dibynnu ar ystod o ffactorau y tu hwnt i fedrusrwydd ieithyddol yn unig, gan gynnwys hyder personol, cefnogaeth sefydliadol a diwylliant proffesiynol y gweithle.

Un fenter a gyflwynwyd yn 2005 i annog defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle yw'r bathodynnau oren 'Iaith Gwaith', sy'n dangos gallu'r sawl sy'n eu gwisgo i siarad Cymraeg (Gruffydd et al., 2025). Dylid annog staff gofal iechyd yng Nghymru, boed yn rhugl neu'n ddysgwyr, i wisgo'r bathodyn 'Iaith Gwaith' er mwyn dangos eu bod yn gallu siarad yr iaith, gan obeithio y bydd hyn yn cynyddu eu defnydd o'r Gymraeg a'u hyder i'w defnyddio mewn lleoliad clinigol. Mae'r canfyddiadau hefyd yn gyson â chanllawiau diweddar gan Ofal Cymdeithasol Cymru, sy'n cydnabod y gall sgiliau Cymraeg o fewn y gweithlu gael eu tanddefnyddio oherwydd diffyg hyder, diffyg cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a phryderon ynghylch cyfrifoldebau ychwanegol sy'n gysylltiedig â defnyddio'r iaith (Gofal Cymdeithasol Cymru 2025). Mae'r astudiaeth hon yn darparu tystiolaeth empirig gan weithwyr gofal iechyd proffesiynol sy'n cefnogi'r safbwyntiau hyn ac yn awgrymu y gall hyder fod yn rhwystr sylweddol i ddefnydd gweithredol o'r Gymraeg mewn lleoliadau clinigol.

Fel rhan o strategaeth 'Mwy Na Geiriau', y nod yw cyflwyno gofyniad o hyfedredd sylfaenol yn y Gymraeg ar gyfer staff gofal iechyd yng Nghymru, gyda'r nod tymor hir i bob aelod o staff gofal iechyd yng Nghymru gyrraedd o leiaf lefel sylfaenol o Gymraeg (Llywodraeth Cymru 2022). O'r rhai a gymerodd ran yn yr astudiaeth hon, cytunodd 93% â'r angen i staff gofal iechyd gael hyfedredd sylfaenol yn y Gymraeg. Cytunodd 82% hefyd y byddai cael mwy o staff gofal iechyd sy'n siarad Cymraeg yn gwella gofal cleifion.

Cefnogir y farn hon gan lenyddiaeth sy'n dangos bod cynnal gofal trwy gyfrwng iaith y claf yn gwella gofal cleifion. Dangosodd canlyniadau'r treial hapsamplu rheolyddedig HOLA welliant sylweddol mewn bodlonrwydd cyffredinol cleifion, mwy o hyder mewn meddygon a chanfyddiad o fwy o gyfleoedd i godi pryderon ymhlith cleifion canser sydd â gallu cyfyngedig yn y Saesneg sy'n derbyn gofal yn y Sbaeneg o'i gymharu â chleifion canser o'r fath sy'n derbyn gofal gyda gwasanaethau cyfieithu proffesiynol (Seible et al., 2021). Yn ogystal, mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn darparu cyd-destun polisi unigryw sy'n berthnasol i ddehongli canfyddiadau'r astudiaeth hon. Mae'r ddeddf yn pwysleisio'r angen i hyrwyddo cymdeithas fwy cyfartal a chydlynus, gan gynnwys diogelu a hyrwyddo'r Gymraeg fel rhan o lesiant diwylliannol (Llywodraeth Cymru 2015). Felly, gellir cysylltu canfyddiadau'r astudiaeth â'r ddyletswydd ehangach ar sefydliadau cyhoeddus i ystyried anghenion ieithyddol defnyddwyr gwasanaeth, gan gryfhau'r ddadl dros ddatblygu a chynnal darpariaeth Gymraeg o fewn lleoliadau gofal iechyd.

